# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Bryn Celyn**

**Parc Maesteg**
**Maesteg**
**Caerdydd**
**CF34 9LR**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

09/06/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Gofal Bryn Celyn

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Amaya Care Homes (Maesteg) Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 56 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 15.12.2021 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn byw bywydau hapus, iach a boddhaus yng nghartref gofal Bryn Celyn. Mae awyrgylch hamddenol yn y cartref yn helpu'r bobl ac ymwelwyr i deimlo'n gyfforddus. Mae'r tîm o staff brwdfrydig a phroffesiynol yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau'r bobl: mae nyrsys a gweithwyr gofal yn dangos gwybodaeth drwyadl am y bobl sy'n cael cymorth. Caiff y bobl eu cefnogi i wneud dewisiadau bob dydd a chymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau y maent yn eu mwynhau. Maent hefyd yn hapus iawn â'r prydau fwyd sy'n cael eu cynnig yn y cartref. Mae gan y bobl gynlluniau personol manwl a chyfredol, sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r nyrsys a'r gweithwyr gofal yn darparu gofal a chymorth mewn modd urddasol a parchus. Mae nifer digonol o staff i sicrhau bod y bobl yn cael gofal a chymorth pan fydd eu hangen arnynt. Mae'r gwasanaeth yn cael ei redeg a'i reoli'n eithriadol o dda. Ceir ymdeimlad cryf o waith tîm ymhlith y staff, sy'n cael eu harwain gan reolwr rhagweithiol, uchel ei barch. Mae'r rheolwr yn goruchwylio'n rhagorol ac yn mynd yr ail filltir i gefnogi'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith er mwyn helpu i ddiogelu'r bobl rhag niwed neu gamdriniaeth. Mae llywodraethiant effeithiol iawn ar waith a brwdfrydedd gan y tîm i ddarparu gwasanaeth da. Caiff pob aelod o'r staff eu recriwtio yn dilyn gwiriadau recriwtio cadarn, cânt oruchwyliaeth a hyfforddiant rheolaidd, ac maent yn hapus ac yn cael eu cefnogi yn eu gwaith.

## Llesiant

Gall y bobl gyfrannu at gydberthnasau diogel ac iach, a'u mwynhau. Mae'r rhyngweithio rhwng y staff a'r bobl yn gynnes ac yn gyfeillgar. Mae'n amlwg bod y bobl yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus yng nghartref gofal Bryn Celyn, ac mae'r adborth yn gadarnhaol. Gall y bobl gadw mewn cysylltiad â'u hanwyliaid yn hawdd a gallant ymweld pan y dymunant. Mae'r staff yn ystyried anghenion cyfathrebu ac iaith y bobl, ac mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg.

Mae'r ddogfennaeth gofal yn y gwasanaeth yn llawn gwybodaeth, yn effeithiol ac yn gyfredol. Mae'r cynlluniau gofal yn canolbwyntio ar yr unigolyn, yn gyson fanwl ac yn glir i'w dilyn. Mae archwiliadau a oedd yn cael eu cynnal gan y tîm rheoli yn cefnogi goruchwylio'r ddogfennaeth yn ofalus. Mae gan y gweithwyr gofal wybodaeth dda am y bobl ac felly maent yn gallu sylwi ar unrhyw newidiadau yn gyflym ac ymateb iddynt yn brydlon. Mae'r bobl yn aros mor iach â phosibl oherwydd atgyfeiriadau amserol at weithwyr gofal iechyd proffesiynol a threfniadau ar gyfer rhoi meddyginiaeth yn effeithiol. Mae prydau bwyd iach a maethlon yn ystyried anghenion deietegol y bobl. Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref a'u perthnasau yn dweud wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y gofal a ddarperir yng nghartref Bryn Celyn.

Mae mesurau ar waith i gadw'r bobl yn ddiogel. Mae'r nyrsys a'r gweithwyr gofal yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran diogelu ac yn cael eu hyfforddi i gadw'r bobl yn ddiogel. Mae'r gweithwyr gofal yn cael eu recriwtio yn unol â'r rheoliadau ac yn destun gwiriadau cyn cyflogi i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer y rôl. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau yn hyrwyddo arferion diogel. Mae'r prosesau recriwtio yn gadarn ac mae sesiynau goruchwylio rheolaidd yn cefnogi datblygiad parhaus. Caiff digwyddiadau a damweiniau eu cofnodi a chymerir camau priodol gan y gwasanaeth. Mae'r archwiliadau sicrhau ansawdd parhaus yn gwneud yn siŵr bod y systemau yn parhau'n effeithiol ac y caiff gwelliannau eu nodi a'u hystyried.

Mae strwythur rheoli clir ar waith ar gyfer y gwasanaeth. Cawsom adborth cadarnhaol gan y staff y gwnaethom siarad â nhw, a ddywedodd wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi'n dda iawn gan y rheolwr arloesol. Mae systemau effeithiol iawn ar waith ar gyfer monitro ac archwilio safonau cymorth a'r amgylchedd. Mae datganiad o ddiben ar gael, sef dogfen sy'n nodi gwybodaeth am y gwasanaeth a ddarperir. Mae'n disgrifio gweledigaeth, gwerthoedd ac ethos y cartref.

Mae'r bobl yn byw mewn llety sy'n cefnogi ac yn annog eu llesiant. Mae eu hystafelloedd yn cynnwys eitemau personol o'u dewis a dodrefn addas, ac yn eu galluogi i gael amser preifat os ydynt yn dymuno. Mae cynlluniau ar waith i wneud gwaith adnewyddu parhaus, ynghyd â chwblhau gwiriadau iechyd a diogelwch perthnasol.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael budd o ofal a chymorth o safon dda. Mae dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wrth gynllunio gofal yn sicrhau bod y bobl wrth wraidd y gofal a'r cymorth a roddir iddynt. Caiff cynlluniau personol eu datblygu ar y cyd rhwng yr unigolion neu eu cynrychiolwyr. Maent yn nodi anghenion gofal a chymorth y bobl ac yn darparu cyfarwyddiadau clir ynghylch darparu gofal i'r gweithwyr gofal. Mae asesiadau risg a chynlluniau rheoli cadarn yn nodi gwendidau'r bobl ac yn rhoi arweiniad i'r gweithwyr gofal ar ymyriadau a fydd yn cadw'r bobl yn ddiogel. Dywedodd gweithiwr iechyd proffesiynol a oedd yn ymweld wrthym nad oes ganddo unrhyw bryderon, mae'r atgyfeiriadau'n cael eu gwneud yn amserol, a dilynir unrhyw gyngor a roddir. Dywedodd wrthym hefyd "*They are compassionate about providing the best care for their residents*".

Mae tîm profiadol o weithwyr gofal yn darparu gofal a chymorth.  Mae lefelau staffio cyson a phriodol ar waith i ddiwallu anghenion gofal a chymorth y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Mae trosiant staff yn isel sy'n darparu parhad gofal da. Gwelsom ryngweithio cadarnhaol rhwng y nyrsys, y gweithwyr gofal a'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Gwelsom fod y bobl yn cael eu trin mewn ffordd gynnes a charedig.  Caiff y bobl eu cefnogi i wneud y pethau sy'n bwysig iddynt. Dywedodd unigolion sy'n byw yn y cartref "*This is the best place to go*", "*Staff are lovely, they do whatever you want*" a "*Coming here is the best thing I did*". Dywedodd y perthnasau wrthym "*She seems as happy as she can be*" a "*She gets on well with the girls*".

Mae'r gwasanaeth yn cymryd pob cam rhesymol i nodi ac atal y posibilrwydd o gamdriniaeth. Mae'r staff yn cydnabod eu cyfrifoldebau personol o ran cadw'r bobl yn ddiogel a gwnaethant ddweud wrthym y byddent yn rhoi gwybod am unrhyw bryderon. Maent yn ymwybodol o'r weithdrefn ar gyfer chwythu'r chwiban ac yn dweud eu bod yn teimlo'n hyderus y gallent godi mater gyda'r rheolwr pe bai angen gwneud hynny. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym hefyd eu bod wedi dilyn hyfforddiant mewn diogelu a bod polisi diogelu cyfredol i'r holl staff ei gyrchu a'i ddilyn. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'n ddiogel yn byw yng nghartref gofal Bryn Celyn.

Mae systemau ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau. Caiff meddyginiaeth ei storio'n ddiogel a dim ond staff gofal a nyrsio ag awdurdod all gael gafael arni. Mae cofnodion yn dangos bod y staff yn rhoi meddyginiaeth yn unol â chyfarwyddiadau'r rhagnodwr ac maent yn rhydd o fylchau neu wallau. Mae'r staff nyrsio a'r staff gofal yn cael hyfforddiant ar y ffordd y dylent reoli a rhoi meddyginiaeth. Mae gan y cartref bolisi meddyginiaeth cyfredol ar waith. Caiff meddyginiaeth ei harchwilio'n rheolaidd, gydag archwiliad allanol ychwanegol yn cael ei gynnal gan fferylliaeth leol.

## Yr Amgylchedd

Mae'r amgylchedd yn helpu llesiant y bobl. Mae'r gwasanaeth ar ddau lawr. Y gymuned nyrsio sydd ar y llawr uchaf ac mae'r bobl sydd angen gofal preswyl ar y llawr gwaelod. Gall y cartref ddarparu llety ar gyfer cyfanswm o hyd at 56 o bobl. Gwelsom fod ystafelloedd gwely'r bobl wedi'u personoli ag eitemau o ddewis personol. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hapus iawn â'u hystafelloedd. Dywedodd un unigolyn wrthym "*Fair play, they clean it every day*". Mae gan bob ystafell wely gyfleusterau ystafell ymolchi en-suite, gyda thoiledau a sinciau. Mae sawl ystafell ymolchi a chawod gymunedol yn y cartref ac mae cyfarpar arbenigol ynddynt ar gyfer y rheini sydd ei angen. Mae cynllun y cartref yn hybu hygyrchedd ac annibyniaeth; gall y bobl symud yn rhydd yn yr ardal lle maent yn byw. Mae nifer o ardaloedd cymunedol sy'n lân, ac wedi'u dodrefnu a'u haddurno'n addas.

Gwelsom dystiolaeth o raglen dreigl helaeth o waith cynnal a chadw, gwirio a gwasanaethu i sicrhau bod y cartref, ei gyfleusterau a'i gyfarpar yn ddiogel. Gwelsom fod gwiriadau priodol a thystysgrif diogelwch ar waith ar gyfer cyfleustodau, cyfarpar a nodweddion diogelwch tân. Gwelsom fod gan bob unigolyn sy'n byw yn y cartref gynllun personol gadael mewn argyfwng (PEEP) cyfredol ar waith. Mae'r ddogfen yn sicrhau bod y staff yn deall y cymorth sydd ei angen ar y bobl os bydd argyfwng. Mae'r cyfleusterau golchi dillad yn addas i ddiwallu anghenion y bobl sy'n byw yn y cartref. Caiff sylweddau sy'n beryglus i iechyd eu storio'n ddiogel ac mae ardaloedd cymunedol yn daclus heb unrhyw beryglon. Caiff y gegin ei harolygu gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac ar hyn o bryd mae ganddi sgôr o 5 (da iawn).

Caiff y bobl eu diogelu rhag ymwelwyr heb awdurdod yn dod i mewn i'r adeilad gan fod yn rhaid i bob ymwelydd ganu cloch y drws ffrynt er mwyn dod i mewn, yn ogystal â chofnodi ei ymweliad yn y llyfr ymwelwyr wrth gyrraedd a gadael. Caiff cofnodion gofal personol y bobl eu storio'n ddiogel a dim ond y gweithwyr priodol a'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sydd ag awdurdod i'w gweld.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y gwasanaeth weledigaeth gref ac ethos sy'n cael ei lywio gan y tîm rheoli. Mae ei nodau, ei werthoedd, a'r cymorth a ddarperir wedi'u nodi yn y Datganiad o Ddiben mewn ffordd dryloyw. Mae canllaw ysgrifenedig ar gael i'r bobl yn y gwasanaeth, sy'n cynnwys gwybodaeth ymarferol am y cartref, a'r cymorth a ddarperir. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cynnig amrywiaeth rhagorol o gyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i'r bobl a'u cynrychiolwyr ofyn cwestiynau a rhoi adborth.

Mae'r nyrsys a'r gweithwyr gofal yn teimlo'n hapus yn eu rôl. Dywedodd y gweithwyr wrthym "*I love it*", "*I like working here*" a "*I love it, it's homely*". Mae trosiant staff yn isel, gyda rhai wedi gweithio i'r gwasanaeth am lawer o flynyddoedd, gan ddarparu parhad o ran gofal i'r bobl. Mae'r staff gofal yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd ac arfarniadau blynyddol sy'n myfyrio ar eu perfformiad yn effeithiol, gan nodi unrhyw gymorth y gallai fod ei angen arnynt a thrafod unrhyw broblemau. Dangosodd y rota bod lefelau staffio yn cael eu cyflawni ac roedd y rota'n adlewyrchu'r staffio ar y diwrnod hwnnw. Dywedodd y staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi, a bod gwaith tîm yn y cartref yn arbennig. Gwnaethant ddweud wrthym hefyd eu bod yn gallu siarad â'r rheolwyr, sy'n hawdd iawn mynd atynt. Mae gan y rheolwr bresenoldeb amlwg iawn ac mae hi'n cymryd rhan mewn gofal ymarferol. Wrth siarad am y rheolwr, dywedodd un aelod o'r staff "*She's been great, really approachable*".

Caiff y bobl eu cefnogi gan dîm ymroddedig o nyrsys a gweithwyr gofal sydd wedi cael eu recriwtio'n ddiogel ac sy'n cael eu hyfforddi er mwyn cyflawni eu rolau. Mae'r cofnodion a welsom yn dangos bod y darparwr yn cynnal y gwiriadau angenrheidiol wrth recriwtio staff. Mae gwiriadau recriwtio staff manwl yn gyfredol. Mae'r staff yn cael hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rolau, gan gynnwys hyfforddiant ar reoli heintiau a hyfforddiant diogelu. Gwelsom fod gan y cwmni bolisïau a gweithdrefnau cadarn i'r staff eu dilyn. Mae polisïau a gweithdrefnau trylwyr ar waith, megis ar gyfer cwynion, rheoli heintiau, meddyginiaeth a diogelu, sy'n rhoi canllawiau i'r staff gofal, er enghraifft drwy nodi beth y dylid ei wneud pe byddent o'r farn bod rhywun yn wynebu risg o niwed. Mae pinnau'r nyrsys yn ddilys sy'n dangos eu bod yn addas ar gyfer ymarfer ac mae'r gweithwyr gofal wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae gan bob aelod o'r staff wiriad cyfredol gan y gwasanaeth datgelu a gwahardd (DBS).

Mae'r gwasanaeth yn cael ei redeg a'i reoli'n eithriadol o dda. Mae trefniadau llywodraethu, archwilio a sicrhau ansawdd cadarn ar waith sy'n helpu i redeg y gwasanaeth yn effeithlon. Mae'r systemau gwerthfawr hyn yn helpu'r gwasanaeth i hunanwerthuso ac i nodi ble y mae angen gwneud gwelliannau. Gwelsom dystiolaeth o'r gwasanaeth yn cymryd camau gweithredu cadarn i fynd i'r afael ag unrhyw faterion. Gwelsom dystiolaeth o'r Unigolyn Cyfrifol yn cyflawni'r ymweliadau gwasanaeth bob tri mis a'r adolygiadau o ansawdd y gofal bob chwe mis sy'n ofynnol yn gyfreithiol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 25/07/2023